CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 28.01.2010 A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.30PM

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton,
Elsie Dafis, John Davies,
Greg Evans, Lynda Mason-George,
Kistiah Ramaya, Dorothy Williams & Derek Wilson.
Cynghorydd Tref a Sirol Robert (Hag) Harris
Y Cynghorydd Sirol Ivor Williams
Arolygydd yr Heddlu Paul Bonning.
SCCH Ryan Jones
Hannah Smith – Gohebydd y Wasg y Cambrian News
Mr Carl Stringer – Gohebydd y Wasg yn gweithio ar liwt ei hun
Adam – aelod o'r cyhoedd.

1. **CROESO GAN Y CADEIRYDD:** Croesawodd y Cadeirydd Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i bob un. Offrymwyd gweddi gan y Gyng. Dorothy Williams.
2. **YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL**
   - 2.1 **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tref** Andrew Carter, Margaret Davies-Evans a Chris Thomas.
   - 2.2 **Nid yw'r Gyng. Margaret Davies-Evans** wedi bod yn teimlo'n hwylus yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad llwyr a buan iddi.
   - 2.3 **Datganwyd llongyfarchion** i'r Maer a'r Faeres ar enedigaeth eu hŵyr, yn Llundain, sef Evan Walters.
3. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU**
   Bu i'r canlynol ddatgan eu diddordeb personol pan dderbyniwyd ceisiadau ariannol ar gyfer:
   - 3.1 **Y Pwll Nofio**, Llambed: Cyng. Phillips, Harris a Barton; &
   - 3.2 **Chymdeithas Cerdd Llambed:** Cyng. Ramaya a Barton.
4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   - 4.1 **Adborth yn ymwneud â datblygiadau parthed yr Ardal Gwahardd Alcohol, Llambed.**
     Y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Yfed Alcohol Mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (Llanbedr Pont Steffan) 2009 o dan Adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.
     Boed i'r cyfnod ymgynghori yn Llambed ddirwyn i ben ar y 30ain o Fedi 2009. Bydd y CSC yn asesu'r ymatebion ac yn ysgrifennu adroddiad i ddwyn o flaen y Cabinet. Gohiriwyd hyn oherwydd pwysau gwaith.
   - 4.2 **Cyfarfod Ymgynghorol â'r Awdurdod yr Heddlu Dyfed-Powys:** Nos Fawrth 1af Rhagfyr 2009 am 7pm, yn Swyddfa y Cyngor Sir ym Mhenmorfa, Aberaeron. Bu i'r Clerc fynychu'r cyfarfod. Y mae pecyn gwybodaeth sy'n amlinellu'r materion a drafodwyd, ar gael at ddefnydd y cyhoedd yn Llyfrgell Y Dref, gan gynnwys yr Addewid Plismona. Eglurodd y Comander Rhanbarthol newydd ei apwyntio, Simon Powell, sut oedd gwasanaeth lleol yr heddlu'n cyrraedd y safonau anghenrheidiol a grybwyllwyd o fewn yr Addewid Plismona. Derbyniwyd cyflwyniadau byr yn ymwneud â'r Diweddariad

Arainnol a'r Cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt, a'r dulliau a fabwysiedir gan yr Heddlu i osod blaenoriaethau plismona. Codwyd nifer o gwestiynau gan y gynulleidfa yn ymwneud â materion gweithredol yr heddlu. Amlygwyd, yn sgîl y drafodaeth, y dylai'r blaenoriaethau ar gyfer Ceredigion ymroi i

- Ddarparu y gwasanaeth orau o fewn terfynau'r gyllid; a
- Chynyddu presenoldeb gweladwy'r heddlu ar y strydoedd.

4.3 **Bydd y Comander Rhanbarthol** newydd ei apwyntio ar gyfer Ceredigion sef Mr Simon Powell yn mynychu cyfarfod mis Chwefror y Cyngor Tref.

4.4 **Adroddodd Arolygydd yr Heddlu Paul Bonning** bod yr Heddlu wedi ymateb i nifer o alwadau yn ymwneud â'r tywydd garwaf ers 20 mlynedd**.**

4.5 **Diolchodd y Maer i Ryan Jones** am ei ymdrechion i sicrhau cymhorthdal o £15,000 dan law'r heddlu. Mae'r arian ar gael gan yr heddlu am eu bod wedi gwerthu asedau a gipiwyd o ddwylo troseddwyr.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 26AIN O DACHWEDD 2009 A'R CYFARFOD O'R 14.01.2010

Cytunwyd i gofnodion y cyfarfodydd uchod fel cofnodion cywir.

6. ETHOL Y MAER A'R DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDEISTREFOL 2010-11

Pleidleisiwyd yn unfrydol y byddai'r Cyng. Rob Phillips yn cael cynnig y swydd o Faer ym mis Mai eleni a'r Cyng. Hag Harris y swydd o Ddirprwy-Faer.
Anfonir llythyr at y ddau ohonynt yn cynnwys cais am y *Cadarnhâd Derbyn Swydd.*

7. MATERION SY'N CODI

7.1 **Ystyriaeth i'r Rhodd mewn Ewyllys (£11,500): Bu i aelodau ystyried yr opsiynau ar gyfer mudiadau/achosion posibl y gellir elwa o'r rhodd sef**

- Trosi'r adeilad sy'n dadfeilio wrth gefn i'r Cyfleusterau'r Gwasanaethau Cymdeithasol presennol ar gyfer Canolfan i'r Ieuenctid (5 pleidlais)
- Datblygu Neuadd Fictoria fel adnodd ar gyfer y gymuned (3 pleidlais)
- Neuadd Sgowtiaid (2 bleidlas)
- Rhodd ariannol ar gyfer pobl ieuanc yn ymwneud â'u hastudiaethau (0 pleidlais)

Crybwyllwyd awgrymiadau eraill ee offer chwarae ym Mharc yr Orsedd a Pholyn Baner ar gyfer y dref. Gellir defnyddio arian y Cyngor Tref i gwrdd â'r costau hyn. Teimlwyd na ddylid rhannu'r £11,500 rhwng nifer o brosiectiau ond yn hytrach ei gadw yn ei gyfanswm a'i ddefnyddio ar gyfer un cynllun yn unig. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC), perchennog yr adeilad sy'n dadfeilio tybed a fyddai'n bosibl i drawsnewid y strwythur, i safle wedi ei glustnodi ar gyfer Clwb i'r Ieuenctid.
Os derbynnir ymateb negyddol ystyrir opsiynau eraill.

7.2 **Enwebu cynghorydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB:**
Enwebwyd y Gyng. Elsie Dafis i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB. ***I hysbysu'r CAB.***

7.3 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** adroddodd y Cyng Wilson bod yr hysbysfwrdd wedi ei drwsio, erbyn hyn, gan Mr Kevin Jones, Garej Forge, Cwmann am dâl o £549.

7.4 **Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref:** y mae'r ddau fin wedi eu derbyn gan y Cyngor Sir. *Disgwylir clywed am ddatblygiadau pellach gan y cyngor sir.*

7.5 **2 Arwydd stryd -Parc St. Germain-sur-Moine**: derbyniwyd yr arwyddion ar y 14eg o Hydref 2009. Y mae'r cyngor sir wedi cytuno i arddangos yr arwyddion am dâl. Bu i'r ddau gynghorydd etholedig lleol sef y Cyng. Harris a Williams gyfarfod â Mr Lyndon Griffiths CSC ar y safle ar y 25ain o Ionawr. Penderfynwyd ar y lleoliad ar gyfer y 2 arwydd.
Disgwylir clywed am ddatblygiadau pellach.

7.6 Clos Glyndŵr: Bydd yr arwydd yn datgan y geiriau *Clos Glyndŵr* yn cael ei brynu gan y Cyngor Sir a'i osod ar eiddo Mr Simon Anderson. Y mae angen caniatâd o leiaf 3 o'r 5 deiliaid cyn medru bwrw ymlaen â'r cais. Bu i'r Clerc adrodd ei bod wedi anfon llythyr at y 4 deiliaid (Y mae Mr Anderson wedi cytuno eisoes) ac amlen hunan-gyfeiriad â stamp, ar ddechrau mis Hydref. Derbyniwyd un ymateb gan Mr Jamie McCormack. *Cytunodd y Cyng. Phillips i atgofio'r deiliaid, mewn ymgais i fwrw ymlaen â'r cais.*

7.7 Problemau Trafnidiaeth Llambed

7.7.1 Maes Parcio'r Rookery

Adroddodd y Cyng. Harris iddo gyfarfod â Mr Lyndon Griffiths ar y safle ar y 25ain o Ionawr a bydd y Cyngor Sir yn ymgymryd â newidiadau i'r fynedfa, maes o law er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer bysiau a loriau trwm hir a llwythog. Rhaid talu am barcio yn y maes-parcio'r Rookery erbyn hyn.

7.7.2 Maes Parcio'r Cwmin

Datganodd y CT ei gefnogaeth i ymdrech y CSC i wella'r drefn parcio ar Y Cwmins sef cynllun parcio'n ddi-dâl dros gyfnod byr. Cyn y gellir mynd â'r maen i'r wal, rhaid ceisio datrys anhawster cyfreithiol parthed union statws y Cwmins. Trafodwyd y mater yn ystod y cyfarfod ymgynghorol y cyngor sir o'r 16eg o Dachwedd. ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.***

Atgofiwyd aelodau'r cyngor sir am y Cais am Orchymyn Rheoli Traffig o flaen yr 8 tŷ Rhes Harford. ***Yn disgwyl clywed oddi wrthynt.***

7.7.3 Arolwg Traffig Llawn

"Byddai arolwg traffig llawn yn golygu'r defnydd o adnoddau helaeth ac nid yw'n bosibl i'r Awdurdod i gefnogi'r cais ar hyn o bryd." oedd yr ateb a dderbyniwyd gan y cyngor sir yn yr haf 2009. Cyflwynwyd ail gais at y Cyngor Sir: ***Yn disgwyl ateb gan y CSC parthed yr ail gais.***

7.7.4 Cais oddi wrth un o drigolion Heol y Gogledd, Llambed (Awst 2009) i osod croesfan ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd oherwydd rhesymau diogelwch. Cytunwyd i drosglwyddo'r llythyr at sylw'r Cyngor Sir yn mynegi bod y CT yn hollol gefnogol i unrhyw fesuriadau sydd o gymorth i hybu diogelwch cerddwyr ar Stryd y Gogledd. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i leoli croesfan ar gyfer troedwyr ar yr heol. Y mae pob lleoliad a nodir yn cael ei flaenoriaethu drwy edrych ar hanes gwrthdrawiadau yn y lleoliad dan sylw ac ar anafiadau personol a achosir gan y gwrthdrawiadau hynny. Bydd yr wybodaeth honno wedi ei seilio ar wybodaeth ffurfiol a ddaw oddi wrth Heddlu Dyfed-Powys. Hefyd, fel rhan o'r broses hon, fe ystyrir y lleoliad, geometreg y ffordd, y llif traffig, ymddygiad defnyddwyr y ffordd a phresenoldeb cerddwyr a seiclwyr sy'n fwy agored i niwed. Gall y broses a ddefnyddir i asesu ceisiadau am rai mathau o fesurau rheoli traffig fod yn hir a chymhleth. Bydd yr asesiad yn ystyried beth yw arwyddocâd y broblem mewn lleoliad penodol ac yn nodi'r camau cywiro priodol. Hefyd, bydd angen sicrhau'r arian a'r awdurdod angenrheidiol i wneud y gwaith. O bryd i'w gilydd, gall yr hyn sy'n ymddangos fel cynigion call a theilwng ar yr olwg gyntaf syrthio'n fyr o feini prawf yr asesiad. O ganlyniad gall yr amser a gymerir i ymateb i'r cais fod yn eithaf hir. (ateb gan GSC Medi 2009) Roedd aelodau'n parhau i fod rhwng dau feddwl ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar Heol y Gogledd a phenderfynwyd gwneud cais arall am asesiad o'r ardal gyda'r bwriad o osod croesfan ar gyfer cerddwyr mewn lle neu o leiaf i gyflwyno ryw fath o fesur rheoli traffig ar Heol y Gogledd. ***Yn disgwyl clywed oddi wrth y CSC ynglŷn â'r ail gais ac***

fe drafodwyd y mater yn ystod y cyfarfod ymgynghorol o'r 16eg o Dachwedd

7.7.5 Parcio Heol-y-Bryn: mae problemau'n bodoli yng nghyffiniau Heol Y Bryn ac yn enwedig gyferbyn y cyffordd Heol Cambrian/Heol y Bryn. Pederfynwyd gofyn i'r cyngor sir tybed a fyddai'n bosibl i leoli llinellau melyn yn yr ardal hon i ganiatau cerbydau i droi ac i symud.
Yn disgwyl ateb gan GSC.

7.7.6 Y mae Ymgynghoriad Distewi Traffig ar gyfer Mountwalk yn mynd yn ei flaen gan GSC. *Yn disgwyl clywed am ddatblygiadau gan GSC.*

7.8 Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr: *Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC.*

7.9 Siarter Tosturiol Cymorth Anifeiliaid: 8 cam gweithredol i helpu anifeiliaid, pobl a'r planed: y mae Cymorth i Anifeiliaid (Animal Aid) yn datguddio ac yn ymgyrchu'n heddychlon yn erbyn pob math o gamdriniaeth i anifeiliaid.
Addasiad *Cyngor Tref Aberystwyth o'r Siarter i dderbyn ystyriaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.*

7.10 Bu i'r Maer atgofio aelodau bod 3 llyfryn wedi eu dosbarthu ymysg aelodau megis, *Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2008-09*: *Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol. Adroddiad Ombwdsman 2008-09* a *Chymuned ar y Cyd: Meithrin Cydberthynas a Siarteri ar gyfer Awdurdodau Unedol a Chynghorau Cymuned a Thref-Canllawiau Terfynol: Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol.*

7.11 Ymgynghoriad: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009:canllawiau statudol: Cynulliad Cenedlaethol: Pasiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 gan y Cynulliad ar 28 Ebrill 2009 a chafodd gydsyniad brenhinol ar 10 Mehefin. Mae dwy ran sylweddol i'r Mesur – Rhan 1, sy'n deilio â chynllunio busnes a gwelliant gan awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, a Rhan 2, sy'n delio a chynllunio cymunedol strategol gan awdurdodau lleol ac ystod o bartneriaid sector cyhoeddus: **nodwyd er gwybodaeth.**

7.12 Adborth yn ymwneud â chyfarfod y Siambr Fasnach 18.01.2010: Bu i'r Maer fynychu'r cyfarfod yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru, Llambed. Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Bob Harlow, Lambert Smith Hampton, Cynghorydd Eiddo Cenedlaethol, Abertawe a Mr Andrew Morgan, Morgan & Davies, Llambed. Roedd eu hanerchiadau'n ymwneud â'r codiad arfaethedig yn Nhreth Busnes, Masnachwyr Llambed.

7.13 Arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd Cymru: adborth o'r cyfarfod o'r 15.12.2009 CSC Penmorfa, Aberaeron: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru: Yn dilyn y cyfarfod y mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar fin cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion. Ymhlith y materion y bydd y Comisiwn yn eu hystyried bydd maint Cyngor Sir Ceredigion a nifer o ffiniau ei ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Gwahoddir sylwadau cychwynnol erbyn yr 2ail o Fawrth 2010. Y Maer i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen.

8. GOHEBIAETH

8.1 Dyddiadau cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Safonau CSC: er gwybodaeth.

8.2 Cynllun Datblygu Gwledig 2007-13 a'r cyfle i geisio am swydd o Gysylltwr Bro CSC: er gwybodaeth

8.3 Cyngor Cymuned y Borth: Deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol parthed gwell gwasanaeth bws ar gyfer ardaloedd gwledig – i gefnogi'r ddeiseb.

8.4 Cod Ymddygiad – Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae Mr Peter Tyndall, Ombudsmon yn

ymgynghori ar y canllawiau statudol y mae'n bwriadu eu cyhoeddi o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 parthed Model y Cod Ymddygiad. Byddai'n ddiolchgar pe bai cynnwys y canllawiau drafft yn cael ei rhannu gydag aelodau. Derbynnydd cyntaf: Cyng. Phillips.

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu gyrru erbyn Dydd Gwener 12 Chwefror 2010.

8.5 Ombwdsmon Llyfryn Gwybodaeth: Eisiau Cwyno am gorff cyhoeddus – Chi a'r Ombwdsmon. Dosbarthwyd ymysg aelodau.

8.6 Garddwest Palas Buckingham 20fed o Orffennaf 2010: Gofynnodd swyddfa'r Arglwydd Siamrlen i Un Llais Cymru i roi gwybod i aelod gynghorau y bydd Ei Mawrhydi yn cynnal garddwest ym Mhalas Buckingham ar Ddydd Mawrth 20fed Gorffennaf 2010. Mae'r gwahoddiad i'r Cadeirydd presennol (cyn gadeirydd) i gydnabod gwasanaeth blaenorol. Enwebwyd y Maer a'r Faeres. Penderfynir ar yr enwau terfynol trwy dynnu enwebiadau pob rhanbarth allan o het.

8.7 Penderfynwyd mewn cyfarfod cynt i drefnu 2 ginio ar gyfer yr anghenus ym 2010. Hysbyswyd Mrs Pat Davies, Ysgrifenyddes Eglwys San Pedr a derbyniwyd 2 ddyddiad i'w hystyried megis yr 2ail Ebrill a'r 6ed Awst. Cynhelir y ginio ar y Dydd Gwener cyntaf y mis. Derbyniwyd y dyddiad o 6ed Awst i gymryd gofal y ginio. Ni threfnwyd dyddiad arall – ***i hysbysu Mrs Pat Davies.***

8.8 Poster gan Elin Jones AC yn dymuno Blwyddyn newydd Dda i holl aelodau'r Cyngor Tref. Mae croeso i'r Cyngor Tref gysylltu â hi a mawr obeithir y gall helpu'r gymuned mewn unrhyw ffordd: ***i arddangos ar yr hysbysfwrdd.***

8.9 Poster gan Mark Williams AS yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl arddangos y poster yn hysbysu gwybodaeth parthed ei gymhorthfa nesaf sef y 5ed Chwefror***: I arddangos ar yr hysbysfwrdd.***

8.10 Cymdeithas Tai Cantref: Cyfarfod Cyffredinol Arbennig – 20 Ionawr 2010. prif bwrpas y cyfarfod hwn oedd ystyried cynnig i newid Rheolau Cofrestredig presennol Cantref a mabwysiadu'r fersiwn ddiweddaraf: **er gwybodaeth.**

8.11 Pwyllgor Ardal Ceredigion 19.01.2010. Roedd materion ar yr agenda wedi cynnwys cyflwyniad gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynllun Datblygu Lleol – Grŵp Budd-ddeiliaid.

8.12 Hen Neuadd y Dref Llambed: gwybodaeth a dderbyniwyd gan Mr Roger Clive Powell parthed y Ddogfen Trosglwyddo

Mae'r Cyfamodau rhwng y rhai a dderbyniodd y ddogfen Trosglwyddo sef (Ymddiriedolaeth Highmead) a'r Trosglwyddwyr, sef y Cyngor Sir Ceredigion a ganlyn:

1. I gynnal a chadw'r cloc yn nhŵr yr adeilad;
2. I ganiatau Cyngor Tref Llambed y defnydd o'r Hen Ystafel Lys sy'n gwynebu'r Stryd Fawr, ar lawr uwch yr eiddo ar gyfer Seremoni'r Urddo'r Maer am flynyddoedd 2009-13 (gan gynnwys 2009 a 2013).
3. I ganiatau'r Cyngor Tref y defnydd o ystafell addas ar gyfer cyfarfodydd am dâl llog rhesymol neu gost trwydded fel y cytunir yn achlysurol rhwng y rhai a dderbyniwyd y ddogfen trosglwyddo a'r Cyngor Tref.
4. Cyfamod derbynnydd y Ddogfen Trosglwyddo oddi wrth y Cyngor Sir Ceredigion: byddant yn derbyn cyfamodau yn unol â'r canllawiau a grybwyllwyd yn (1) (2) a (3) (uchod) gan unrhyw

brynwr o'r eiddo oddi wrthynt a byddant yn gosod Cyfamod mewn lle yn debyg i'r Cyfamod Presennol.

Soniodd Mr Powell bod cyflenwyr y cloc wedi darparu 3 cynhwysydd anaddas ar gyfer y cloc, a dyma paham y mae'r cloc yn gwrthdroi.

Ar gyfer cyfarfodydd cyson y Cyngor Tref y mae'n bosibl defnyddio Ystafell Lys Rhif 2 pan na ddefnyddir yr ystafell i gynnal cyrsiau, neu fel dewis arall, un o'r swyddfeydd, er eu bod braidd yn gyfyng a chyn belled, heb eu trosi. Bydd diogelwch yr adeilad yn broblem, gan fod angen lefel uchel o ddiogelwch i gwrdd â gofynion Statws Amgueddfa y Ganolfan Cwiltiau. Mae'r Ymddiriedolwyr Highmead wedi gofyn tybed a fyddai'n bosibl i ymgynghori â hwynt cyn gosod cytundeb mewn lle.

8.13 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

9. CYNLLUNIO

9.1 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Bwriad & Ymgeisydd**	**Safle**
10/12/2009 Rhif y Cais: A090831 Rheol 14 diwrnod dirprwyo swyddogaethau i aelodau penodedig 15.12.2009	Codi estyniad â ffrâm o ddur ar gyfer adeilad diwydiannol presennol i'w defnyddio fel cyfleustra ailgylchu defnyddiau. Mr C Saunders LAS Cyf Llanbedr PS	LAS Heol Tregaron Llanbedr PS Dim gwrthwynebiad
8.12.2009 Rhif y Cais: A090563 Rheol 14 diwrnod – dirprwyo swyddogaethau i aelodau penodedig 15.12.2009	Codi tŷ a garej Cynlluniau Diwygiedig Mr Kevin Thomas Capel Iwan	Dim gwrthwynebiad

9.2 CANIATÂD CYNLLUNIO GAN GYNGOR SIR CEREDIGION

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Ymgeisydd a'r bwriad**	**CANIATÂD I**
18.12/2009 Rhif y Cais: A090764	*Mrs G Lewis* *Dyffryn* *Cae Dash* *Stryd Newydd* *Llanbedr PS*	godi estyniad a thŷ gwydr
30.10.2009 Rhif y cais: A090740AV	Food Programme Delivery Orchid Group Old Bank Building	*Arddangos 2Xarwydd fascia* *1 bwrdd Bwydlen*

	Hanover Street Manceinion *Co-op Cyf* *Stryd y Bont, Llambed*	

9.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 11.11.2009 a 9.12.2009 a'r Agenda y cyfarfodydd 9.12.09 a 13.01.2010: er gwybodaeth.

10. MENTER LLAMBED

10.1 Safle ar y We Newydd; Mae'r gwaith wedi ei gwblhau gan CWN Design, Llanfair Clydogau a mae'r safle ar y we wedi ei lansio ar-lein sef http:/www.lampeter-tc.gov.uk. Diolchodd y Cyng. Greg Evans i'r Cyng. Phillips am ei ymdrechion wrth iddo gydlynu'r trefniadau.

. **10.2 Y mae trafodaethau yn mynd yn eu blaen**, gan Transition Llambed, ynglŷn â derbyn prydles gan Gyngor Sir Ceredigion i ddatblygu'r Neuadd Fictoria at ddibenion y gymuned.

11. CYLLID

11.1 CYFRANIADAU

Enw'r Mudiad	Cyfraniad
Pwll Nofio Llambed	£2,000
Cyngor ar Bopeth	£ 500
Cymdeithas Cerdd Llambed	£ 200
Macmillan Gofal Canser	£ 100
Cam-fan, Heol y Porthmyn, Llambed	£ 100
Ffermwyr Ieuainc Ceredigion	£ 50
Gofal yr Henoed Ceredigion	£ 50
Ieuanc mewn Ysbryd : llogi Neuadd Fictoria X 9 @£11/sesiwn	£ 99
CYFANSWM AR GYFER ELUSENNAU @31.12.2009	**£3,871**
CYFANSWM AR GYFER ELUSENNAU @ 31.01.2010	**£6,970**
Canllawiau'r Cynulliad £6.15/etholwr. Oddeutu1,600 etholwyr yn Llambed ym 2008	

11.2 GWARANT RHAGFYR 2009 & IONAWR 2010

Eitem	Tâl
Tocio Perth, Cae Maesyderi, Gwasanaeth Coed Llambed	£350; £52.50 TAW = £4.2.50
BT Anfoneb/Bandlydan	£107.14 + TAW £16.08=£123.22
Hirio Festri Shiloh 14.01.2010	£15.00
CWN Dylunio Safle ar y We	£387.50; £58.13(TAW)= £445.63
Hirio Neuadd yr Eglwys 28.01.2010	£22.50
Garej Teifi Forge, Hysbysfwrdd	£548 + TAW £96.08= £645.08
Cyflog Y Clerc Rhagfyr net	£536.90
Cyflog Y Clerc Ionawr net	£536.90
Treth Incwm a Cyf. YC Rhagfyr	£130.80
Treth Incwm a Cyf. YC Ionawr	£130.08
Golau/Gwres/storio Rhag & Ionawr	£40.00
Yswiriant Zurich	£1,536.32 – mae'r yswiriant Gwarant Ffyddlondeb wedi ei godi i £200,000
Mr E. Williams Torri Gwair ym Mharc-yr-Orsedd 6x £85	£510
J & E Woodworks: darparu coed ar	£190.65 TAW £28.26=£219.25

gyfer Parc-yr-Orsedd, Ebrill 2009	
Arolwg Maes Chwarae Parc-yr-Orsedd Cyngor Sir Ceredigion	£510.00
Archwiliad Allanol BDO Stoy Hayward	£356.50

11.3 INCWM:

- **Cymdeithas Adeiladu Abertawe Llog** £489.65
- **Llog Banc Barclays** £230.00

11.4 Penderfynwyd peidio â chyfrannu at yr Elusen Cruse sy'n helpu pobl yn eu galar nac i'r Gymdeithas Corawl Aberystwyth Apêl Dathlu 40 o flynyddoedd.

11.5 Siambr Fasnach Llanbedr PS: mae yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus y Cyngor Tref mewn lle o'r amser pan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu gosod i fyny, i'r amser pan gânt eu tynnu i lawr.

11.6 Asesiad Risg yn ystod y flwyddyn 2009-10: mae'r asesiad risg drafft wedi ei gwblhau gan y Clerc i dderbyn ystyriaeth pellach gan y Maer, Dirprwy-Faer a'r Gyng. Mason-George.

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 GOLEUADAU STRYD

Mae'r goleuadau ar y groesfan pelican ger Siop Gwilym Price heb fod yn gweithio – i adrodd at sylw'r CSC.

12.2 PALMANTAU

12.2.1 Cytunodd y Gyng. D.Williams i gyflwyno rhestr i gynnwys yr holl broblemau yn ymwneud â phalmantau'r dref, yn ystod y cyfarfod nesaf.

12.2.2 Chwynnu o gwmpas y dref: Stryd San Thomas, Sgwâr Harford, Llys Idwal/Pedr a gerbron yr Orsaf Ambiwllans. Derbyniwyd gwybodaeth gan Lesley Lewis CSC ar y 23ain o Ragfyr 2009 yn cyfleu bod y Contractwr Cynnal a Chadw'r Ddaear wedi derbyn cyfarwyddiadau i ymdrin â'r problemau chwyn yn unol â chanllawiau'r cytundebau cynnal a chadw'r ddaear. Bydd Adain y Priffyrdd yn clustnodi sylw i'r ardaloedd hynny sydd yn eu gofal. Mae'r palmantydd, a gyfeiriwyd atynt ac a leolir ar yr ystadau tai yn gyfrifoldeb yr Asiantaeth Tai Ceredigion bellach.

12.3 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

12.3.1 Mae'r cais am gymhorthdal o dan y Cynllun Llwybrau Cymunedol 2010 CSC, a lluniwyd gan y Cyng. A.Carter, wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir. Cyfanswm £1.060 (heb TAW) (grant 75% os yw'r cais yn llwyddiannus)

12.3.2 Mae'r Gwelliannau ym Mharc yr Orsedd fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau diweddar, a sydd wedi eu cynnwys mewn cofnodion cynt, yn mynd yn eu blaen.

12.3.3 Y Bont Bren dros yr Afon Creuddyn, Ardal Glynhebog

Arolygwyd y bont bren gan Mr Tom Doidge, Coedwigwr y Wlad, CSC. Adroddodd yn yr ebost a dderbyniwyd ar y 15 Rhagfyr 2009 bod y sangau wedi eu hadnewyddu ym 2006 ac nid oedd cyflwr y bont wedi gwaethygu ryw lawer ers hynny. Nid yw'n ddichonadwy i drwsio'r bont unwaith yn rhagor. Mae'r amser wedi dyfod i gyfnewid y bont am un newydd a mae trafodaethau'n mynd yn eu blaen gan yr

Adran y Priffyrdd i ddarparu bont newydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

12.4 CAMERAU TCC

12.4.2 Adroddiad Misol ar gyfer Tachwedd 2009 CSC: bu yna 2 gais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol, 5 cais am luniau llonydd a 2 gais am ddisgiau copi yn ymwneud â gyrru'n afreolus (dyddiad y digwyddiad 2.11.2009) ac ymosodiad rhywiol (14.11.2009). Roedd y gallu i chwyddo, wedi ei golli ar un camera, er bod y camera'n llwyr weithredol ymhob agwedd arall – adroddwyd y nam ar y 3.11.2009 atgyweiriwyd ar y 3.12.2009. Gohiriwyd y gwaith gan beiriannwyr oherwydd parhâd yn y gwyntoedd cryfion a oedd yn atal y defnydd o'r platfform uchel i gyrraedd y camera.

12.5 ADOLYGIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG: gwaith yn mynd yn ei flaen gan y Cyng.Phillips.

12.6 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol ar y 26ain o Ionawr. Pwrpas y cyfarfod oedd hysbysu aelodau o 'r grant a dderbyniwyd dan law'r heddlu (Croes-gyf 4.5)

13. U.F.A.

13.1 Llythyr gan Mr Ru Hartwell, Cyfarwyddwr y Cwmni *Treeflights*, via'r Cyng. Harris, Prosiect Plannu Coed i Amsugno Carbon, Llanddewibrefi. Y mae busnesau, ysgolion ac unigolion yn y gymuned yn cael eu hannog, o dan y cynllun i gymryd cyfrifoldeb am eu hallyniadau carbon drwy noddi'r plannu o goed a chadwraeth coedwigoedd gan gymuned sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r *Treeflights,* Llanddewi, yn Nhrofan Kenya. Cynigodd Mr Hartwell i fynychu cyfarfod dyfodol y Cyngor Tref er mwyn esbonio nodau ac amcanion y cynllun yn uniongyrchol.
Penderfynwyd gwahodd Mr Hartwell i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor Tref.

13.2 Mynegwyd pryder gan y Gyng. Elsie Dafis parthed yr hedfan isel o awyrennau di-griw yn ardal Aberporth. Adroddodd y Maer bod y Cyngor Tref wedi ymateb eisoes i'r *Ymgynghoriad ar Newid Gofod Awyr i Sefydlu Gofod Awyr Ar Wahân ar Gyfer Amgylchedd systemau Awyrennau Di-Griw Cymru yng Ngorffennaf 2009.* Ffafriwyd Opsiwn 3 (y ddogfen ymgynghorol ar gael dan law'r Clerc). **Sylwadau'r Cyngor Tref**: Ar yr amod fod y rheolau'n ymwneud â diogelwch a phreifatrwydd yn cael eu cadw, y mae'r manteision economaidd posibl yn gorbwyso'r peryglon y gellir eu codi.

13.3 Penderfynwyd diolch i'r Siambr Fasnach am eu trefniadau'n gysylltiedig â'r Arddangosfa Goleuadau Nadolig, unwaith yn rhagor yn ystod Nadolig 2009.

13.4 Cyfleodd y Cyng. Ivor Williams cais gan unigolyn yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl iddo wneud cyflwyniad i'r Cyngor Tref parthed Canser y Perfedd. Cytunodd y Cyng. Williams i gysylltu â'r Clerc i wneud y trefniadau.

13.5 Adroddwyd bod y Dr Steven Jones, yn wreiddiol o Lambed wedi cario'r Fflam Olympaidd, yn ystod y Ras Gyfnewid y Ffagl Olympaidd Vancouver 2010.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos lau 25ain Chwefror am 7:00pm yn Neuadd yr Eglwys Llanbedr PS.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)